barod

# Ni ŵyr gwir garedigrwydd unrhyw ffiniau



**Rydym yn dymuno gweld Deddf Samariad Trugarog Gorddos Cyffuriau yn cael ei gweithredu yng Nghymru er mwyn helpu i achub bywydau.**

## Beth yw Deddf Samariad Trugarog Gorddos Cyffuriau (DOGSA)?

Mae DOGSA yn cynnig diogelwch cyfreithiol i unigolion sy'n profi neu sy'n dyst i orddos y ceir amheuaeth ei fod yn gysylltiedig â chyffuriau. Bydd y ddeddf yn helpu i leihau'r ofn y bydd yr heddlu yn mynychu digwyddiadau gorddos, gan annog pobl i geisio help mewn argyfwng a helpu i achub bywyd. Dan gyfreithiau presennol, bydd nifer yn, ac nid ydynt yn ymateb yn y ffordd fwyaf briodol oherwydd eu bod yn ofni cael eu harestio a'u herlyn.

Mecsico Newydd oedd y dalaith gyntaf i gyhoeddi cyfraith o'r fath yn yr Unol Daleithiau, yn 2007, ac erbyn 2021, mae 47 o daleithiau a Washington D.C. wedi cyflwyno deddfau o'r fath.[1] Cyflwynodd Canada y Ddeddf Gorddos Cyffuriau Samariad Trugarog ar draws y genedl yn 2017, gan ymateb i fygythiad cynyddol y defnydd o opioidau synthetig.[2] Os caiff ei chyflwyno, Cymru fyddai'r genedl Ewropeaidd gyntaf i weithredu deddfwriaeth mor arloesol ac sy'n achub bywydau.

## Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu?

BYn ystod 2021 - 22, cofnodwyd gofal dilynol ar gyfer 82% (n=235) o ddigwyddiadau gwenwyno gan gyffuriau lle'r adroddwyd am ddefnyddio naloxone, y cyffur sy'n achub bywydau ac sy'n gallu dadwneud effeithiau gorddos gan opioidau am gyfnod dros dro.[3] Fel rhan o weithgarwch effeithiol er mwyn rheoli gorddos, cynghorir y rhai sydd yno i ffonio 999 i gael cymorth y gwasanaethau brys, os rhoddwyd naloxone neu beidio.[4] Fodd bynnag, mewn 50% (n=117) o'r achosion gorddos hyn, ni ffoniwyd am ambiwlans ac felly, ni chyflawnwyd gweithgarwch effeithiol er mwyn rheoli gorddos, gan gynyddu'r risg y byddai achos angheuol yn digwydd.[3]

Yn flaenorol, bu galwadau yn y DU i gyflwyno DOGSA, er mwyn ymateb i nifer gynyddol y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac y byddai modd eu hatal, wrth i rieni sy'n galaru gwestiynu a oedd yr oedi wrth ffonio am ambiwlans wedi cyfrannu at farwolaethau eu meibion.[5]

Mae ymchwil o'r Unol Daleithiau wedi canfod bod yr awdurdodaethau sydd wedi gweithredu DOGSA wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad achub bywydau ymhlith pobl sy'n ymwybodol o'r cyfreithiau. Mae hyn yn cynnwys bod unigolion sy'n bresennol yn ystod achosion gorddos y ceir amheuaeth eu bod yn gysylltiedig â chyffuriau, yn fwy tebygol o ffonio 911.[1]

O 2021, ymhlith yr awdurdodaethau yn yr Unol Daleithiau sydd wedi gweithredu DOGSA, gwelwyd gostyngiad o 7% yn nifer yr holl farwolaethau oherwydd gorddos, a chyfraddau sydd 10% yn is o ran marwolaethau sy'n gysylltiedig ag opioidau, o'u cymharu â'r cyfraddau cyn cyflwyno'r ddeddf, a'r cyfraddau marwolaethau mewn taleithiau heb gyfreithiau o'r fath.[6]




*Delwedd:Poster a ddefnyddiwyd i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Gorddos Cyffuriau Samariad Trugarog yng Nghanada. [2]*

Gweledigaeth Barod yw cael ei chydnabod gan ei rhanddeiliaid allweddol fel darparwr mwyaf blaenllaw gwasanaethau arloesol ac o ansawdd ym maes alcohol a chyffuriau.

barod.cymru @wearebarod
@barodproject @wearebarod
@barod2067 @wearebarod

barod

## Pam nawr?

Argymhellir defnyddio cyffuriau o flaen pobl arall fel neges allweddol er mwyn lleihau niwed i unrhyw un sy'n bwriadu defnyddio sylweddau, sy'n gallu achub bywyd rhywun pe bai'r unigolyn hwnnw yn cael gorddos.[4] Mae nifer o achosion gorddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn digwydd pan fydd pobl arall o gwmpas ac mae hyfforddiant rheoli gorddos yn pwysleisio mai un o'r ymatebion cyntaf i ddigwyddiad o'r fath yw ffonio 999, er mwyn cael gweithwyr meddygol proffesiynol yno i gymryd drosodd o'r tystion, ac ymgymryd â'r cyfrifoldeb enfawr o achub bywyd.[4] Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bu sawl achos lle nad yw'r ddau ymateb effeithiol hwn, neu un ohonynt, wedi digwydd.

Ceir posibilrwydd y bydd pobl sy'n profi neu sy'n dyst i orddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn meddu ar gyffuriau anghyfreithlon. Mae holl heddluoedd Cymru wedi gweithredu rhaglen lle y gall heddweision wneud penderfyniad gwirfoddol i gario naloxone ac yn aml, trwy gyd-ddigwyddiad, yr heddlu yw'r gwasanaeth brys cyntaf i ymateb i a mynychu gorddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau.[7] Yn y DU, gellir arestion unigolion a'u herlyn os byddant yn profi gorddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau.[8] O ganlyniad, ceir ofn ymhlith y rhai sydd yno y gallent fod yn destun chwiliad am gyffuriau anghyfreithlon, eu harestio a'u herlyn yn ddiweddarach. O ganlyniad, gallai hyn arwain at beidio ffonio'r gwasanaethau brys, neu bobl yn gadael y lle, ac felly, na chynigir ymateb effeithiol i argyfwng iechyd. O ganlyniad, gallai hyn fygwth bywyd yr unigolyn sydd wedi profi gorddos.

Gallai bygythiad o'r fath i fywyd gael ei waethygu gydag ymddangosiad sylweddau gwenwynig a marwol yn y marchnadoedd cyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru.Cofnodwyd y trydydd nifer uchaf o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru yn 2022 [3], a cheir ofn yn y sector bod hyn yn mynd i waethygu am beth amser eto, o ystyried ymddangosiad opioidau synthetig, ac yn fwyaf nodedig, nitazinau yn y farchnad cyffuriau anghyfreithlon. Gweithredodd Canada a sawl awdurdodaeth ar draws UD, eu DOGSA nhw i gyd-fynd â'u dull gweithredu iechyd cyhoeddus tuag at ddefnyddio sylweddau a diogelwch iechyd a lles eu dinasyddion. Mae'n bryd i Gymru fabwysiadu dull gweithredu tebyg nawr.

## Pam deddf newydd?

Gallai DOGSA ddiogelu'r holl unigolion, gan gynnwys yr unigolyn sy'n profi gorddos, rhag cyhuddiadau o fod ym meddiant personol sylwedd dan reolaeth dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, ac felly gwaredu'r ofn y bydd yr heddlu yn mynychu digwyddiadau gorddos, gan annog pobl i achub bywyd.

**"Rydw i wedi gweld merch ifanc yn mynd draw ... gadewais i. Ni ddylwn i fod wedi. Roedd hynny'n beth ofnadwy i'w wneud, ond roeddwn wedi mynd i banig.Roedd gennyf lond poced o gyffuriau, felly roeddwn wedi mynd oddi yno."**

**Dienw, yn cofio am sefyllfa pan fuont yn dyst i achos gorddos, gan adael oherwydd eu bod yn ofni y byddai'r heddlu yn dod allan. [4]**

## Beth ydym yn ei ddymuno?

- Nes y caiff unrhyw ddeddfwriaeth newydd ei gweithredu, anogwn yr holl heddluoedd yng Nghymru i ddefnyddio eu disgresiwn wrth fynychu a delio gydag achosion gorddos y ceir amheuaeth eu bod yn gysylltiedig â chyffuriau.
- Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ddiwygio Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 neu i sefydlu deddfwriaeth newydd sbon, a fyddai'n cynnig diogelwch troseddol yn ystod argyfwng iechyd, yn enwedig yng ngoleuni bygythiad cynyddol y defnydd o opioidau synthetig.
- Er ein bod yn cydnabod nad yw'r gyfraith droseddol bresennol wedi cael ei datganoli, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i lobïo dros weithredu DOGSA.

# Cyfeiriadau


1. United States Government Accountability Office (2021) DRUG MISUSE Most States Have Good Samaritan Laws and Research Indicates They May Have Positive Effects
2. Government of Canada (2023) About the Good Samaritan Drug Overdose Act
3. Public Health Wales. Harm Reduction Database Wales: Drug related mortality Annual Report 2021 - 22
4. Holloway, K., & Hills, R. (2017) A Qualitative Study of Fatal and Non-fatal Overdose among Opiate Users in South Wales
5. Thethi, P. (2016) Tackling overdose deaths: It's time for the UK to introduce good Samaritan laws
6. Hamilton, L. (2021) Good Samaritan Laws and Overdose Mortality in the United States in the Fentanyl Era
7. South Wales Police (2023) Milestone 50th use of life-saving nasal naloxone antidote by South Wales Police
8. UK Government (2023) ACMD review of the UK naloxone implementation